

City & Guilds Diploma in Engineering - Mechanical / Manufacturing Engineering Level 3



Yn gwyno

Os ydych yn dilyn gyrfa mewn peirianeg, bydd y cwrs dwy flynedd, rhan amser hwn yn eich helpu chi i ennill y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r cymwysterau NVQ mewn Peirianeg Lefel 3. Mae'n opsiwn arall gwerthfawr os nad oes gennych fynediad at y cymhwyster NVQ.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

- ... unrhyw un sydd eisiau dilyn rhaglen Prentisiaeth
- ... datblygu'ch gyrfa yn y diwydiant peirianeg
- ... datblygu'r sgiliau yr ydych wedi'u dysgu o gymwysterau eraill
- ... darparu tystiolaeth tuag at wybodaeth graidd y N/SVQ

Cynnwys y cwrs



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae angen ichi fod â diddordeb brwd mewn peirianeg a datblygu eich sgiliau ymarferol a dadansoddol, yn ogystal â bod yn gwbl ymroddedig i fynychu a gallu cymell eich hun ddigon i barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Mae'r cwrs ei hun yn cynnwys prosiectau ac aseiniadau yn seiliedig ar sefyllfaoedd gwaith go iawn, ac mae'r pynciau y byddwch yn ymdrin â nhw yn cynnwys:

Iechyd a Diogelwch yn y maes Peirianeg
Egwyddorion peirianeg
Egwyddorion peirianeg gweithgynhyrchu fecanyddol
Cynnal a chadw systemau niwmatig
Cynnal a chadw systemau hydrologig
Cynnal a chadw systemau peiriannau

neu

Peiriannu deunyddiau drwy droi
Peiriannu deunyddiau drwy Felino
Peiriannu cydrannau drwy CNC

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, yn cynnwys:

Hunanreoli
Gwaith tîm
Ymwybyddiaeth busnes ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid
Datrys problemau
Cyfathrebu
Sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol
Agwedd gadarnhaol at waith

Cewch eich asesu drwy arholiadau, gwaith cwrs, aseiniadau, asesiad ymarferol a gwaith portffolio cyn y dyfarnir y Diploma mewn Technoleg Peirianeg (Mecanyddol/Gweithgynhyrchu) Lefel 3 City & Guilds, ac yna gallwch fynd ymlaen i Brentisiaeth neu gyflogaeth addas fel technegydd mecanyddol neu weithgynhyrchu - neu os ymgymeroch â mathemateg uwch a gwyddoniaeth fel uned opsiynol o fewn y cymhwyster, gallwch fynd

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ymlaen i gymhwyster lefel uwch (e.e. HNC).

Gofynion Mynediad

Bydd angen i chi fod wedi cwblhau Diploma Lefel 2 mewn Peirianeg gyda gradd Llwyddo.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os ydych yn dilyn Prentisiaeth ffurfiol, mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud cwrs ychwanegol i gwblhau'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol. Yn ogystal, byddwch angen darparu eich Cyfarpar Diogelu Personol eich hun (esgidiau dur trymion ac oferôls o ddeunydd gwrthdan) a chyflenwi eich offer ysgrifennu eich hun, e.e. ffolderi, rhanwyr pwnc, pinnau ysgrifennu, pensiliau, pensiliau lliw, cwmpawd, pren mesur a chyfrifiannell gwyddonol.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

